

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Talybont  
ar nos Iau 10 Hydref, 2019 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Megan Tomos  
Y Cynghorydd Margaret Fernley  
Y Cynghorydd Geraint Hughes  
Y Cynghorydd Alun Thomas  
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris  
Y Cynghorydd Evan Jones

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Kevin Williams  
Y Cynghorydd Dafydd Jones  
Y Cynghorydd Jên Morris

### **Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Myfanwy Jones.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2019.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Diffibriliwr** – adroddwyd bod y diffibriliwr wedi ei osod ar wal gefn y Capel.

Penderfynwyd anfon nodyn o ddiolch i'r Capel am ganiatau ei osod.

Adroddwyd hefyd bod y dogfennau ar gyfer mabwysiadu'r ciosg yn Llan wedi eu derbyn. Felly penderfynwyd archebu diffibriliwr ar gyfer y ciosg, ac hefyd trefnu noson o hyfforddiant.

**Crymlyn, Aber** - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y Clerc i holi unwaith eto am yr arwyddion 'sat nav'.

**Airfields of Britain Conservation Trust** - y plac coffa wedi ei osod. Y Cyng. Megan Tomos wedi cysylltu gyda Ysgol Llanllechid ynglŷn a gwneud gwaith paratoi gyda'r ysgolion cyn cael ymweliad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

**Ffordd wrth Wern Bach** – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi hefyd.

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd wedi bod i wneud archwiliad ar y safle, ond ni darwyd ar draws unrhyw ddiffyg amlwg i'r draen. Bydd angen rhagor o archwiliad i'r draen hwn er mwyn dod o hyd i'r linell gywir. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi am ddiweddariad.

**Llifogydd Tan Lôn** – Cyngor Gwynedd wedi bod i archwilio'r safle. Bydd y gwaith tacluso'n cael ei gyflawni cyn gynted a bod adnoddau'n caniatau.

**Draeni ar Lon y Bryn** – 4 sinc wedi codi ac yn rhedeg yn chwithig. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Mynydd i Parc Main** – defaid yn mynd drwodd i'r mynydd gan nad oes rhwystr yno. Y Clerc i hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

**Ynni Cymunedol** – y Cyng. Geraint Hughes yn awyddus cael sesiwn ar y pwnc yn y Ffestri. Adroddwyd bydd Huw Davies, Dyffryn Gwyrdd yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

J Johnson-torri gwair Talybont	£150.00
J Johnson-torri gwair cae chwarae	£150.00
Partneriaeth Ogwen – llyfrgell gymunedol	£317.95

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – holiadur/ffurflen casglu gwybodaeth-y Cyngor i anfon unrhyw sylwadau am ardaloedd yn y plwy sydd angen sylw. Penderfynwyd ychwanegu'r ohebiaeth ar gyfer y cyfarfod mis nesaf, er mwyn cael mwy o amser i'w lenwi.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Cynan Jones, Rheolwr Prosiect Canolfan Cefnfaes – cais am gynrychiolydd ar y grŵp llywio. Y Cyng. Jên Morris yn fodlon bod ar y pwyllgor.

**Cyflwynwyd** - e-bost gan y Swyddfa Bost-ymgynhoriad ar y gwasanaeth symudol. Adroddwyd bod y fan yn ymweld a Thalybont bob bore dydd Mercher o 8.45 – 9.45yb.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan YGC-Cyngor Gwynedd-linc ar gyfer mapiau draeni a ffosydd. Nodwyd yr ohebiaeth.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Cylch yr Iaith – copi o lythyr wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd ynghylch y bwriad i enwebu Tirwedd Llechi Gogledd Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd. Penderfynwyd gohurio'r eitem tan y cyfarfod nesaf, er mwyn cael mwy o amser i ddarllen y cynnwys.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Cyngor Gwynedd-nodyn i atgoffa mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fydd y cae chwarae yn Nhalybont o fis Ebrill 2020 ymlaen. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am bris i gynnal a chadw'r cae.

## 7. Y Mynydd

Y Clerc i anfon y llythyrau dyrannu at y porwyr cyn gynted a bo modd, ac angen nodyn i atgoffa bod rhaid i'r defaid gael eu marcio.

## 8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Noson Parc Cenedlaethol gyda Chynghorau Cymuned a Thref – cyfarfod diddorol a defnyddiol. Awgrymwyd gwahodd y warden, Adam Daniel i'r cyfarfod ym mis Ionawr i roi cyflwyniad i'r aelodau.

## **9. Penderfyniadau Cynllunio:**

**C19/0556/21/LL**

Fferm Talybont Uchaf, Tal y Bont, Bangor

Newid defnydd adeilad amaethyddol i weithdy mecanig trin peiriannau cychod.

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd. Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod 21 Hydref i drafod y cais ymhellach.

**NP3/21/35G**

Pant Hwfa, Llanllechid

Cais rhannol ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd tir i faes gwerysyla

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad, cyn belled ag ei fod yn cydymffurfio â'r holl amodau. Ar hyn o bryd mae'r pebyll yn glaer wyn, nid ydynt yn asio gyda'r tirwedd.

## **Ceisiadau Cynllunio:**

Dim ceisiadau.

## **11. Materion Brys**

**Biniau halen** - pawb i anfon rhestr at y Clerc o finiau sydd angen eu llenwi.

**System atal-llifogydd** – dros modfedd o fwd yn waelod y cafn, a cerrig wedi casglu gan nad oedd dŵr yn mynd drwy'r beipen. Cyngor Gwynedd wedi bod i'r safle yn dilyn derbyn e-bost gan y Cyng. Evan Jones.